Cofnodion Grwp Strategol 22/04/09 10:30y.b. Y Ganolfan Reolaeth, Prifysgol Bangor

Presennol: Brec'hed Piette, Prifysgol Bangor (Cadeirydd)
Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Hunydd Andrews, CCiO; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Fred Cunningham, Coleg Llysfasi; David Jones, Coleg Glannau Dyfrdwy; Haydn Edwards, Coleg Menai; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; Dafydd Rhys, Coleg Harlech; Kevern Kerswell, Coleg Ial; Colin Baker, Prifysgol Bangor; David Hedley Williams,Nant Gwrtheyn; Haydn Hughes, CCiO; Huw Evans, Coleg Llandrillo; Ian Rees, Coleg Meirion Dwyfor; Ifor Gruffydd, CCiO; Ellen Roberts CCiO

Ymddiheuriadau: Verona Pritchard Jones, Popeth Cymraeg; Trefor Fôn Owen, Coleg Harlech; Dr Thomas Moore, Prifysgol Glyndŵr; Julie Brake, Prifysgol Glyndŵr.

Gan fod Yr Athro Merfyn Jones yn methu a bod yn bresennol cymerodd Brec'hed Piette, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor y gadair.

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Materion yn codi:

- Pwynt 3, Eitem 4a - mae'r cais cenedlaethol am grant ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle, sector preifat, wedi cael ei dderbyn gyda rhai newidiadau. Mae'r rhan cyd-gyfeiriant wedi ei dderbyn ond yr elfen gystadleuol wedi ei gwrthod. Oblygiadau hyn i CCiO y Gogledd yw na fydd yn bosibl cynnal y brosiect yn siroedd Fflint a Wrecsam. Bydd y prosiect yn cychwyn ym mis Medi 2009.

- Pwynt 5, Eitem 3 – Mae Coleg Meirion Dwyfor yn cynorthwyo i weinyddu'r gronfa Arian Wrth Gefn. Cadarnhawyd y bydd y gronfa ar gael ar gyfer darpariaeth 2009/2010, ond nad yw'r dull o'i weinyddu wedi ei benderfynu eto.

- Pwynt 7 - Cyrsiau Modiwlar - fel arbrawf mae dau gwrs modiwlar yn cael eu rhedeg yn nhymor yr haf 2009 a bydd y peilot yn dechrau o ddifrif ym mis Medi 2009.

- Pwynt 9 - Ymchwil Hyfforddiant yn y Gweithle – Ifor Gruffydd i fynychu cyfarfod rhwng y 6 Canolfan Cymraeg i Oedolion ac APADGOS ar y 23ain Ebrill, gofynnwyd i IG bwyso yn y cyfarfod am drafodaethau brys gyda Bwrdd yr Iaith gan fod angen gwneud rhywbeth ymarferol a chreadigol ynglŷn a'r sefyllfa. Mae pryder cenedlaethol ynghylch diffygion monitro Bwrdd yr Iaith ac mae'r ymchwil yn dangos fod y sefyllfa'n un ddifrifol.

Cofnodion y Panel Ansawdd a gynhaliwyd 25/03/09

Derbyniwyd y cofnodion a dygwyd sylw'r aelodau at y materion canlynol:

- Arsylwi – eleni am y tro cyntaf mae'r Ganolfan yn arsylwi pob tiwtor Cymraeg i Oedolion yn y rhanbarth. Gwnaethpwyd hyn mewn 3 rhan, Gwynedd a Môn ym mis Tachwedd 2008, Conwy a Dinbych yn Mawrth 2009 ac mae'r amserlen wedi ei threfnu i arsylwi tiwtoriaid Wrecsam a Fflint yn ystod Mai 2009. Yn ystod y broses mae'r Ganolfan wedi dysgu ac addasu'r drefn fel bo angen. Mae adroddiadau'n cael eu paratoi ar sawl lefel ac mae'r broses wedi bod yn un adeiladol.

- Mae'r Ganolfan wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd newydd APADGOS a Fframwaith newydd ESTYN. Mae pwyslais ynddynt ar werthusiad dysgwyr a hyn yn cael ei ddefnyddio fel mesurydd perfformiad. Mae angen cysoni gwerthuso gwahanol bartneriaid yn rhanbarthol a chenedlaethol. 'Roedd aelodau'r grŵp yn gefnogol i'r syniad o gydweithio gyda QDP ac yn datgan eu gwerthfawrogiad o waith da a thrylwyr sy'n cael ei wneud gan y Ganolfan o ran ansawdd.

Cofnodion y Panel Darparwyr a gynhaliwyd 25/03/09

- Nid yw'r Ganolfan wedi cael gwybod gan y Cynulliad beth fydd ei dyraniad ariannol ar gyfer 2009/2010. Yn absenoldeb ffigurau pendant mae IG wedi gyrru dyraniadau arfaethedig at fwyafrif y darparwyr wedi eu selio ar eu darpariaeth ddrafft ar gyfer Medi 2009. Disgwylir 10% o gynnydd ar sail arian parod i'r Ganolfan, mae hyn yn golygu cynnydd am fwy o weithgaredd. Nodwyd fod y dyraniadau yn amrywio o un darparwr i'r llall, a hynny o ddim cynnydd o gwbl i gynnydd o 55%.

Prosiect Ymchwil – croesawyd yr Athro Colin Baker o Ganolfan ESRC, Prifysgol Bangor i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ddarganfyddiadau cynnar y Prosiect Ymchwil sy'n astudio cynnydd a dilyniant dysgwyr Cymraeg ledled Gogledd Cymru. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn argymell datblygiadau polisi a darpariaeth CiO yn y dyfodol. Dosbarthwyd copi papur o sleidiau cyflwyniad yr Athro Colin Baker i aelodau'r grŵp.
Diolchwyd i'r partneriaid am eu cymorth a'u cydweithrediad gyda'r ymchwil a gwerthfawrogwyd y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud gan Hunydd Andrews ar y prosiect.
'Roedd yr aelodau'n awyddus fod Hunydd Andrews yn ymweld a'r Darparwyr yn unigol i roi cyflwyniad i'r tiwtoriaid pan fyddai'r dadansoddiad fesul sefydliad yn barod.

Adroddiad y Cyfarwyddwr

- Cyflwyno Data – Mae anawsterau'n codi o safbwynt cyflwyno data ar amser a chyflwyno data cyflawn. Bydd Cyfarwyddwr a Swyddog Data'r Ganolfan yn cynnal cyfarfodydd efo pobl staff a staff CiO sefydliadau.

- Ffioedd 2009/10 – Gwnaed penderfyniad yng Nghyfarfod y Grŵp ar 9/7/08 i godi a chysoni ffioedd. Fodd bynnag yn wyneb y sefyllfa economaidd bresennol penderfynwyd gohirio'r cynnydd hwn ac ail edrych ar y mater yn nhymor yr Hydref.

Hyfforddiant - adroddiad Haydn Hughes

- Mae cyrsiau wedi eu trefnu ar y cyd a Chanolfan y Canolbarth dros yr haf i hyfforddi darpar-diwtoriaid. Rhoddwyd blaenoriaeth i unigolion sydd yn fodlon dysgu yn yr ardaloedd lle mae prinder a/neu weithio gyda'r nos. Bydd y Ganolfan yn cylchredeg enwau rhai sydd wedi bod ar y cyrsiau i'r darparwyr.

- Mae pob un o fyfyrwyr y gogledd wedi llwyddo yn y cwrs Cymhwyster Cenedlaethol a gynhaliwyd llynedd a byddant yn derbyn eu tystysgrifau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

- Noddwyd nifer o fyfyrwyr y cymhwyster eleni i fynychu cynhadledd IATEFL yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mawrth. Byddant yn paratoi adroddiadau i'w rhannu gyda gweithwyr eraill yn y maes. Dywedodd Fred Cunningham fod un o'i diwtoriaid wedi mynychu ac wedi adrodd yn ôl ar y budd mawr oedd yn deillio o hyn. 'Roedd y Grŵp yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae'r Ganolfan yn eu cynnig i'w staff.

- Mae APADGOS wedi cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Ganolfan gan awgrymu creu grwpiau ffocws o diwtoriaid i fwydo mewn i'r cynllun. Oherwydd natur 'fesul awr' gwaith mwyafrif tiwtoriaid CiO, bydd y Ganolfan yn gofyn cwestiynau penodol i grwpiau o diwtoriaid sy'n ymgynnull ar gyfer hyfforddiant er mwyn ateb y diben hwn.

- Mae cwrs i diwtor-drefnyddion a thiwtoriaid sydd a chyfrifoldeb gweinyddol wedi ei drefnu.

Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 8 Gorffennaf 2009 yn Ystafell T10 a T11, Coleg Llysfasi, Rhuthun

Minutes of the Strategic Group 22/04/09 10:30a.m. Management Centre, Bangor University

Present Brec'hed Piette, Bangor University (Chair)
Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg; Hunydd Andrews, WfAC; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Fred Cunningham, Coleg Llysfasi; David Jones, Coleg Glannau Dyfrdwy; Haydn Edwards, Coleg Menai; Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; Dafydd Rhys, Coleg Harlech; Kevern Kerswell, Coleg Ial; Colin Baker, Bangor University; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyn; Haydn Hughes, WfAC; Huw Evans, Coleg Llandrillo; Ian Rees, Coleg Meirion Dwyfor; Ifor Gruffydd, WfAC; Ellen Roberts, WfAC

Apologies Verona Pritchard Jones, Popeth Cymraeg; Trefor Fôn Owen, Coleg Harlech; Dr Thomas Moore, Glyndŵr University; Julie Brake, Glyndŵr University;

As Professor Merfyn Jones was unable to be present, Brec'hed Piette, Bangor University Director of Lifelong Learning, took the chair.

The minutes of the previous meeting were confirmed as correct.

Matters Arising

- Point 3, Item 4a – the national application for a grant for private sector workplace training, has been accepted with some changes. The convergent part has been accepted but the competitive element has been rejected. The implications of this for the North Wales WfAC is that it will not be possible to carry out the project in Flintshire and Wrexham. The project will commence in September 2009.

- Point 5, Item 3 – Coleg Meirion Dwyfor is assisting with the administration of the Contingency fund. It was confirmed that the fund will be available for the 2009/2010 provision but that the mode of its administration has not yet been determined.

- Point 7 – Modular Courses – as an experiment two modular courses are being held in the summer term 2009 and the pilot will begin in earnest in September 2009.

- Point 9 – Workplace Training Research – Ifor Gruffydd is to attend a meeting between the 6 Welsh for Adults Centres and DCELLS on the 23rd of April; IG was asked to press at the meeting for urgent discussions with the Language Board because something practical and creative has to be done about the situation. There is national concern concerning the Language Board's monitoring deficiencies and the research indicates that the situation is serious.

Minutes of the Quality Panel that was held on 25/03/2009

The minutes were accepted and the attention of the members drawn to the following:

- Observation – this year for the first time, the Centre is observing every Welsh for Adults tutor in the region. This was done in three phases, Gwynedd and Anglesey in November 2008, Conwy and Denbigh in March 2009 and the timetable for the observation of Wrexham and Flint tutors has been arranged for May 2009. During the process, the Centre has learned and modified the procedure as necessary. Reports are being prepared at several levels and it has been a constructive process.

- The Centre has participated in discussions on the DCELLS new Quality and Effectiveness Framework and ESTYN's new framework. There is an emphasis in them on the learners' evaluation and this will be as a performance indicator. The evaluation of different partners both regionally and nationally needs to be reconciled. The members of the group supported the idea of working with the QDP and expressed their appreciation of the good and thorough work done by the Centre with regard to quality.

Minutes of the Providers' Panel that was held on 25/03/2009

- The Centre has not been informed by the Assembly what its financial allocation will be for 2009/2010. In the absence of firm figures, IG has sent proposed allocations to the majority of the providers based on their draft provision for September 2009. A cash increase of 10% is anticipated for the Centre, this means an increase for greater activity. It was noted that the

allocations vary from one provider to the next, and that from no increase at all to an increase of 55%.

Research project – Professor Colin Baker from the ESRC Centre, Bangor University was welcomed to the meeting to give a presentation on the early findings of the Research Project that is studying Welsh learners' progress and progression throughout North Wales. The results of the research will recommend developments in policy and in future WfA provision. Paper copies were distributed to group members of the slides of Professor Colin Baker's presentation.

Partners were thanked for their support and cooperation with the research and the substantial work that is being carried out by Hunydd Andrews on the project was appreciated.

The members were eager for Hunydd Andrews to visit the Providers individually to give the tutors a presentation when the analysis by institution was ready.

Director's Report

- Data presentation – Difficulties are emerging in the timely presentation of data and the presentation of complete data. The Director and the centre's Data Officer will hold meetings with people, staff and WfAC staff in institutions.

- 2009/10 fees – A decision was made at the Group's Meeting on 09/07/08 to raise the fees and to reconcile them. However, in the light of the current financial climate it was decided to postpone this increase and to look again at the issue in the Autumn term.

Training – Haydn Hughes' Report

- Joint courses have been arranged with the Mid Wales Centre over the summer to train potential tutors. Priority was given to persons who are willing to teach in areas where there is a shortage and/or do evening work. The Centre will circulate the names of those who have attended the courses to providers.

- All North Wales students were successful in the National Qualification course that was held last year and they will receive their certificates at the National Eisteddfod.

- Several students of the qualification this year have been sponsored to attend the IATEFL conference in Cardiff at the end of March. They will prepare reports to be shared with other colleagues in the field. Fred Cunningham stated that one of his tutors had attended and reported back on the great benefit that flowed from this. The Group appreciated the opportunities the Centre was offering to its staff.

- DCELLS has approved the Centre's training scheme suggesting creating focus groups of tutors to feed into the scheme. Due to the hourly nature of the work of the majority of WfA tutors, the Centre will ask groups of tutors, who come for training, specific questions for this purpose.

- A course has been arranged for tutor-organizers and tutors who have administrative responsibility.

Next Meeting: Wednesday, 8 July 2009, in Rooms T10 and T11, Coleg Llysfasi, Ruthin.